ART ACROSS THE CITY SWANSEA

CELF AR DRAWS Y DDINAS ABERTAWE

LOCWS PROJECTS 2009
PROSIECTAU LOCWS 2009

BERMINGHAM & ROBINSON

SWANSEA'S BRANGWYN HALL
NEUADD BRANGWYN ABERTAWE

3 - 17 OCTOBER
3 - 17 HYDREF

www.artacrossthecity.com

LOCWS PROJECTS 2009

Locws Projects is designed as part of the Locws International programme to work with artists to produce vibrant new artworks which are conceived and exhibited in Swansea, and respond to the people, culture, heritage and landscape of the city.

To coincide with Swansea Festival of Music and the Arts, Locws International has commissioned a temporary new artwork for Swansea's Brangwyn Hall. The bold and colourful artwork responds to the magnificent British Empire Panels housed inside the Brangwyn Hall. Artists Robert Bermingham and Richard Robinson's installation on the windows of the hall, highlights and reflects upon Sir Frank Brangwyn's panels, bringing a contemporary interpretation to Swansea.

BERMINGHAM & ROBINSON

Robert Bermingham & Richard Robinson work collaboratively, forging a dynamic artistic partnership that has a growing reputation within the contemporary visual arts in Wales. Their work fuses drawing, collage, installation and sculpture in an exciting and innovative way, utilizing new ideas and techniques to create vibrant and dynamic artworks.

Bermingham graduated from Grays School of Art, Robert Gordon University, Aberdeen, 1996. Robinson graduated from West Wales School of the Arts in 1996. They have both exhibited across the UK extensively including being shortlisted for The Jerwood Drawing Prize, 2006.

BRITISH EMPIRE PANEL PROJECT

BERMINGHAM & ROBINSON

SWANSEA'S BRANGWYN HALL 3 - 17 OCTOBER

Viewable all day, everyday throughout the Swansea Festival of Music and the Arts.

Image: British Empire Panel (No.17) Sir Frank Brangwyn R.A. City & County of Swansea: Glynn Vivian Art Gallery Collection

Using the British Empire Panels as their inspiration, Bermingham and Robinson have transformed the entrance windows to the Brangwyn Hall into a giant kaleidoscope of light and colour, visible both inside and out, day and night, that evokes the energy and life of Sir Frank Brangwyn's panels held within. This installation brings a new focus of attention upon the panels and by doing so reaffirms their national significance and importance.

Each of the three windows corresponds to one of the panels and by using the same colour palette as the originals, Bermingham and Robinson have created a bold design of coloured vinyl pasted directly onto the windows.

This new installation captures the essence of Brangwyn's original concept and highlights the aspect that brought the British Empire Panels rejection from the House of Lords: his uncompromising vision of the colourful and optimistic nature of Empire. By sharing and working with Brangwyn's ideals, Bermingham and Robinson have created a contemporary artwork using the very same strength of creative independence and determined artistic vision.



PROSIECTAU LOCWS 2009

Mae Prosiectau Locws wedi'u dylunio fel rhan o raglen Locws Rhyngwladol o weithio gydag artistiaid i gynhyrchu gweithiau celf bywiog newydd wedi'u creu a'u harddangos yn Abertawe, ac yn ymateb i bobl, diwylliant, a thirwedd y ddinas.

I gyd-fynd â Gŵyl Cerdd a Chelf Abertawe, mae Locws Rhyngwladol wedi comisiynu gwaith celf newydd dros dro ar gyfer Neuadd Brangwyn Abertawe. Mae'r gwaith celf trawiadol a lliwgar yn ymateb i Baneli'r Ymerodraeth Brydeinig y tu mewn i Neuadd Brangwyn. Mae gosodiad Robert Bermingham a Richard Robinson yn ffenestri'r neuadd yn amlygu ac adlewyrchu paneli Syr Frank Brangwyn, gan ddod â dehongliad cyfoes i Abertawe.

BERMINGHAM & ROBINSON

Mae Robert Bermingham a Richard Robinson yn cydweithio, gan ffurfio partneriaeth gelfydd ddeinamig ag enw da sy'n tyfu yn y celfyddydau gweledol cyfoes yng Nghymru. Mae'u gwaith yn cyfuno arlunio, collage, gosodiadau a cherfluniau mewn ffordd arloesol gyffrous, gan ddefnyddio syniadau a thechnegau newydd i greu gweithiau celf bywiog a deinamig.

Graddiodd Bermingham o Ysgol Gelf Grays, Prifysgol Robert Gordon, Aberdeen, ym 1996. Graddiodd Robinson o Ysgol Gelfyddydau Gorllewin Cymru ym 1996. Maent ill dau wedi arddangos gwaith yn helaeth ar draws y DU, ac roeddent ar restr fer Gwobr Arlunio Jerwood yn 2006.

BRITISH EMPIRE PANEL PROJECT

BERMINGHAM & ROBINSON

NEUADD BRANGWYN ABERTAWE 3 - 17 HYDREF

Gellir eu gweld drwy'r dydd, bob dydd, drwy gydol Gŵyl Cerdd a Chelf Abertawe.

Gan ddefnyddio Paneli'r Ymerodraeth Brydeinig fel eu hysbrydoliaeth, mae Bermingham a Robinson wedi trawsffurfio ffenestri mynediad Neuadd Brangwyn i galeidosgop o olau a lliw, yn weladwy o'r tu mewn a'r tu allan, ddydd a nos, sy'n adlewyrchu'r egni a'r bywyd ym mhaneli Syr Frank Brangwyn. Daw'r gosodiad hwn â chanolbwynt sylw newydd i'r paneli, a thrwy wneud hynny yn atgyfnerthu eu pwysigrwydd a'u harwyddocâd cenedlaethol.

Mae pob un o'r tair ffenest yn cyfateb i un o'r paneli, a thrwy ddefnyddio'r un palet lliwiau a'r gwreiddiol, mae Bermingham a Robinson wedi creu dyluniad trawiadol o finyl lliw wedi'i bastio'n uniongyrchol ar y ffenestri.

Mae'r gosodiad newydd hwn yn dal hanfod cysyniad gwreiddiol Brangwyn ac yn amlygu'r agwedd a arweiniodd at Dŷ'r Arglwyddi yn gwrthod Paneli'r Ymerodraeth Brydeinig: ei weledigaeth ddigyfaddawd o natur liwgar ac optimistaidd yr Ymerodraeth. Drwy rannu a gweithio gyda delfrydau Brangwyn, mae Bermingham a Robinson wedi creu gwaith celf cyfoes gan ddefnyddio'r un annibyniaeth greadigol gref a'r weledigaeth gelfydd benderfynol.

LOCWS INTERNATIONAL

Locws International works with international and Welsh contemporary artists to create new visual artworks and projects that respond to the culture and heritage of the city of Swansea.

Locws International is a registered charity (charity registration number 1123823)

With Support from The Arts Council of Wales, The Esmée Fairbairn Foundation and The City & County of Swansea.

Locws International
16 J Shed, Kings Road, Swansea SA1 8PL

Tel: 01792 468979
Email: locws@locwsinternational.com

www.artacrossthecity.com

Mae Locws Rhyngwladol yn gweithio gydag artistiaid cyfoes rhyngwladol a Chymreig i greu gweithiau a phrosiectau celf weledol newydd sy'n ymateb i ddiwylliant a threftadaeth dinas Abertawe.

Mae Locws Rhyngwladol yn elusen gofrestredig (rhif elusen 1123823)

Gyda chefnogaeth Cyngor Celfyddydau Cymru, Sefydliad Esmée Fairbairn a Dinas a Sir Abertawe.

Locws Rhyngwladol
16 J-Shed, Heol Y Brenin, Abertawe, SA1 8PL

Ffôn: 01792 468979
E-bost: locws@locwsinternational.com

www.artacrossthecity.com

Cyngor Celfyddydau Cymru
Arts Council of Wales

Esmée Fairbairn FOUNDATION